# Newid y naratif

## Rhoi gwerth ar raddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau

Dr Richard Marsden a Dr Anna Plassart
Mehefin 2024

The Open University Y Brifysgol Agored Wales Cymru
history UK
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Pwyntiau trafod allweddol 3

Problemau gyda'r mesurau gwerth a dderbynnir 5

Sgiliau a gwerth: realiti a chanfyddiad 7

Beth y gellid ei wneud? 11

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch canlyniadau cyflogaeth i raddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau ar 24 Ebrill 2024 yng Nghaerdydd. Trefnwyd y drafodaeth mewn ymateb i naratif pwerus ledled y DU ynglŷn â gwerth ariannol addysg uwch, sy'n tueddu i labelu graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn rhai 'gwerth isel' (sy'n costio llawer heb wella rhagolygon gyrfa).

Yn bresennol yn y digwyddiad roedd academyddion, arweinwyr prifysgolion, myfyrwyr, graddedigion, cynrychiolwyr o felinau trafod, cydweithwyr o gyrff cyflogwyr a chydweithwyr o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r pwyntiau allweddol a godwyd. Bwriedir iddo fod yn adnodd i weinyddwyr prifysgolion, academyddion, myfyrwyr, cyflogwyr, cyflogeion a llunwyr polisïau pan fyddant yn cael sgyrsiau am y mater hwn yn eu sefydliadau eu hunain a thu hwnt.

## Pwyntiau trafod allweddol

- Mae **rhagolygon cyflogaeth a chyflog** graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau **yn debyg, fwy neu lai**, i ragolygon cyflogaeth a chyflog y rhai sy'n graddio mewn pynciau eraill, o'u hystyried dros yrfa gyfan.
- Mae'r Arolwg o Ganlyniadau Graddedigion, sef y mesur a dderbynnir o gyflawniad graddedigion, yn giplun a dynnir 15 mis ar ôl graddio. Mae'n rhoi **darlun camarweiniol** o werth ariannol gradd yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau o'i ystyried dros yrfa gyfan.

- Mae gan raddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn arbennig y mathau o **sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyflogwyr**, fel meddwl yn greadigol ac yn ddadansoddol.
- Mae'r drafodaeth gyhoeddus ynghylch graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn tueddu i ganolbwyntio ar fater gwerth (h.y. cydnabyddiaeth ariannol) i raddedigion unigol, ar draul **gwerth ehangach graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau** i'r economi a chymdeithas.
- Mae angen i ddisgyblaethau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau fod yn fwy effeithiol wrth **adrodd stori eu gwerth** economaidd a chymdeithasol wrth lunwyr polisïau a'r cyhoedd. Mae hyn yn bwysig am fod canfyddiadau'r cyhoedd yn llywio'r dewisiadau y mae myfyrwyr yn eu gwneud o ran pynciau yn yr ysgol ogystal â'r brifysgol.

Esbonnir y pwyntiau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Problemau gyda'r mesurau gwerth a dderbynnir

Mae ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd ledled y DU, er enghraifft gan yr Academi Brydeinig (2020) a'r Sefydliad Polisi Addysg Uwch (2023), yn awgrymu bod "problem cyflogaeth" y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn fyth i raddau helaeth. Mae rhagolygon cyflogaeth a chyflog graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn debyg, fwy neu lai, i ragolygon cyflogaeth a chyflog y rhai sy'n graddio mewn pynciau eraill, o'u hystyried dros yrfa gyfan. Mae eu sgiliau trosglwyddadwy hefyd yn rhoi opsiynau iddynt mewn amrywiaeth ehangach o sectorau a phroffesiynau ac yn eu galluogi i wrthsefyll ergydion economaidd yn well.

Adlewyrchir y canfyddiadau hyn wrth edrych ar ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) o'r arolwg o Ganlyniadau Graddedigion ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio o SAUau yng Nghymru. Nid oes unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn lefelau cyflogadwyeddd graddedigion rhwng disgyblaethau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau a phynciau eraill. O ran cyflogau cychwynnol, dim ond gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol sydd rhwng disgyblaethau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau a phynciau eraill, sy'n diflannu pan ddiystyrir nifer bach o ddisgyblaethau dethol sy'n cynnig cyflogau arbennig o uchel o'r cychwyn cyntaf (e.e., economeg, meddygaeth).

Hefyd, mae'r canfyddiadau uchod yn seiliedig yn bennaf ar yr arolwg o Ganlyniadau Graddedigion, a gynhelir 15 mis ar ôl graddio. Nid yw ei gyfnod byr

yn rhoi darlun digonol o ragolygon gyrfa graddedigion ym mhynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, lle mae llwybrau gyrfa yn fwy agored a hyblyg o gymharu â phynciau galwedigaethol neu dechnegol ac, felly, mae graddedigion yn aml yn cymryd mwy o amser i benderfynu ar y llwybrau y byddant yn eu dilyn. At hynny, mae'r arolwg o Ganlyniadau Graddedigion yn dosbarthu swyddi i gategorïau 'lefel raddedig' a 'lefel heb fod yn raddedig', ac mae'r data yn dangos bod graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yng Nghymru yn llai tebygol o fod mewn rolau a ystyrir yn rhai 'lefel raddedig' gan yr arolwg o Ganlyniadau Graddedigion na'r rheini sy'n graddio mewn pynciau STEMM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth). Fodd bynnag, mae'r dosbarthiad hwn yn achosi problemau am ei fod yn seiliedig ar deitl swydd yn hytrach na chyflog. At hynny, nid yw'n rhoi fawr ddim sylw i'r gwahanol fathau o yrfaoedd a all fod mewn gwahanol sectorau nac ychwaith gynlluniau a dewisiadau gyrfa graddedigion.

Felly, mae'r ciplun a ddarperir gan yr arolwg o Ganlyniadau Graddedigion yn ddull annigonol o fesur pa mor dda yw'r 'elw ar fuddsoddiad' a gynigir gan radd. Gan ei fod yn nodi rolau ar gam cynnar, nid yw wedi'i strwythuro i ystyried datblygiad gyrfa dilynol y tu hwnt i swyddi lefel mynediad. Felly, mae'r canlyniadau yn ffafrio graddau galwedigaethol sy'n debygol o arwain at yr hyn a ystyrir yn rolau 'lefel raddedig' gan yr arolwg o Ganlyniadau Graddedigion yn fwy uniongyrchol. At hynny, yn aml nid yw gwahaniaethau o ran pa fathau o swyddi sy'n rhai 'lefel raddedig' yn ddefnyddiol wrth ystyried gwahanol lwybrau gyrfa graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Nid yw'r arolwg yn nodi ychwaith lwyddiannau graddedigion sy'n cael rolau o'r fath ar ôl y cyfnod o 15 mis a fabwysiedir gan yr arolwg. Mae'r cyfyngiadau hyn eisoes wedi'u cydnabod i ryw raddau. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi noddi'r gwaith o greu data canlyniadau graddedigion hydredol, ac mae HESA yn gweithio i ddatblygu mesurau ansawdd swydd yn seiliedig ar lesiant yn hytrach na chydnabyddiaeth ariannol.

Serch hynny, yr arolwg o Ganlyniadau Graddedigion yw'r dewis ddull o fesur (a chyhoeddi) llwyddiant graddedigion ac, felly, werth eu graddau o hyd.

# Sgiliau a gwerth: realiti a chanfyddiad

Yn aml, mae gan raddau sy'n rhoi sgiliau galwedigaethol i fyfyrwyr lwybrau gyrfa mwy pendant ac, felly, maent yn tueddu i arwain at rolau lefel mynediad â chyflogau uwch na'r cyfartaledd ac a ystyrir yn rhai 'lefel raddedig' gan yr arolwg o Ganlyniadau Graddedigion. Mae hon yn ystyriaeth atyniadol i lunwyr polisïau, myfyrwyr a rhieni. Fodd bynnag, mae'r fath ragolwg byrdymor yn diystyru cyfraniad economaidd a chymdeithasol tymor hwy sgiliau trosglwyddadwy a chymhellion gyrfa seiliedig ar werthoedd sy'n nodweddiadol o raddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Nid yw ychwaith yn cydnabod yr amrywiaeth ehangach o opsiynau cyflogaeth a allai fod ar gael i raddedigion â sgiliau trosglwyddadwy, nid yn unig ar ddechrau eu gyrfaoedd ond yn

ddiweddarach hefyd, mewn ymateb i ddiddordebau newydd neu amgylchiadau economaidd sy'n newid.

Gofynnodd Adroddiad Fforwm Economaidd y Byd, 'Future of Jobs', a gyhoeddwyd yn 2023, i gyflogwyr nodi'r sgiliau allweddol y mae angen i'w cyflogeion feddu arnynt, yn ogystal â'r sgiliau a fydd yn dod yn bwysicach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn eu barn nhw. Y tri sgìl pwysicaf ar gyfer y dyfodol a restrwyd ganddynt oedd meddwl yn greadigol, meddwl yn ddadansoddol a llythrennedd technolegol. Sgiliau trosglwyddadwy yw'r rhain yn hytrach na sgiliau galwedigaethol. Maent hefyd yn sgiliau y mae graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn addas iawn i'w datblygu ac, yn achos llythrennedd technolegol, yn eu darparu'n gynyddol i'w myfyrwyr.

Ategir y darlun byd-eang hwn gan arolygon anffurfiol o gyflogwyr lleol (yn y sector manwerthu a'r trydydd sector yn bennaf) yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru. Mae cyflogwyr yn nodi mai graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau sy'n ymgymryd â rolau arweinwyr prosiect yn aml, diolch i'w sgiliau dadansoddol a chreadigol. At hynny, rhoddir gwerth mawr ar raddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau oherwydd eu sgiliau cyfathrebu, sy'n arbennig o bwysig wrth weithio ar draws cymunedau cymdeithasol a diwylliannol amrywiol Cymru. Wedi dweud hynny, mae'n haws i sefydliad mawr gymryd safbwynt hirdymor, gan aros i raddedigion â sgiliau trosglwyddadwy ymsefydlu a dangos eu gwerth. Mae sefydliadau llai o faint yn tueddu i chwilio am gyflogeion sydd eisoes wedi'u hyfforddi ac maent yn ystyried bod graddedigion â sgiliau galwedigaethol yn diwallu'r angen hwn.

Un o'r dadleuon mwyaf cymhellol dros werth parhaus pynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r sgiliau y maent yn eu rhoi i raddedigion yw effaith technolegau newydd fel deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae hyn yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar lawer o broffesiynau a gallai olygu bod rhai proffesiynau sy'n defnyddio sgiliau galwedigaethol yn bennaf yn cael eu disodli. Fodd bynnag, ni all sgiliau trosglwyddadwy fel meddwl yn ddadansoddol, meddwl yn greadigol a chadernid/hyblygrwydd gael eu darparu gan dechnoleg yn unig, nid yn y dyfodol agos o leiaf, ac mae graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau mewn sefyllfa arbennig o dda i'w darparu.

Er gwaethaf y cyfleoedd y mae pynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau yn eu cynnig i raddedigion drwy'r sgiliau trosglwyddadwy a addysgir ganddynt, mae canfyddiadau'r cyhoedd o 'broblem' cyflogadwyedd yn cael effeithiau negyddol ar nifer y disgyblion sy'n eu hastudio yn yr ysgol. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod llai a llai o fyfyrwyr yn cael eu recriwtio ar lefel gradd. Mae hyn i'w briodoli i farn offerynnol a byrdymor am 'werth' addysgol, boed hynny yn yr ysgol neu'r brifysgol, sy'n cael ei llywio gan rethreg wleidyddol a'r mesurau meintiol annigonol a drafodwyd uchod. Mae hefyd yn cyfrannu at ddiffyg amrywiaeth ymhlith graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau o gymharu â phynciau eraill, sy'n arbennig o broblematig am fod eu sgiliau yn aml yn golygu eu bod yn fedrus iawn wrth gysylltu ag amrywiaeth o bobl.

Yn olaf, mae'r drafodaeth gyhoeddus ynghylch graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn tueddu i gyfuno mater gwerth (h.y. cydnabyddiaeth ariannol) i raddedigion a mater gwerth i'r economi a mater gwerth i gymdeithas. Mae'r rhain yn dri mater gwahanol. Er enghraifft, mae graddedigion yn y Celfyddydau

Creadigol yn tueddu i ennill cyflogau cychwynnol llai o gymharu â llawer o bynciau eraill, ond maent yn aml yn mesur 'gwerth' mewn ffyrdd anariannol, fel boddhad swydd a chyfraniad at gymdeithas. Serch hynny, maent yn gweithio mewn llawer o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn economi Cymru ac maent yn gyfrifol am nifer anghymesur o fusnesau newydd. Yn yr un modd, gellir dadlau bod athro hyfforddedig yn fwy gwerthfawr i gymdeithas na chyfrifydd hyfforddedig, ac eto mae ein dull presennol o fesur gwerth gradd yr unigolyn hwnnw (o ran cyflogau cychwynnol a chynhyrchu cyfoeth uniongyrchol) yn nodi fel arall.

# Beth y gellid ei wneud?

Mae llawer y gallai SAUau ei wneud yn fewnol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd uchod. Mae rhagor o waith i'w wneud i ymgorffori addysgu cyflogadwyedd mewn graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau, drwy ddulliau presennol fel gwaith asesu, lleoliadau ac interniaethau dilys, a dangos i fyfyrwyr sut mae eu hastudiaethau yn eu paratoi ar gyfer rolau sy'n cynnwys datrys problemau, entrepreneuriaeth ac arwain. Yn ddiau, gall SAUau wneud mwy i sicrhau bod gan fyfyrwyr yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau yr adnoddau cysyniadol sydd eu hangen arnynt i gyfleu natur a gwerth eu sgiliau trosglwyddadwy yn well i gyflogwyr a'r cyhoedd. Byddai cynnwys cyflogwyr eu hunain yn y drafodaeth, fel rhan o baneli cynghori diwydiant neu gyrff tebyg, yn elfen bwysig o'r gwaith hwn – ac mae eisoes yn digwydd mewn rhai mannau. Gallai SAUau hefyd weithio mwy gydag ysgolion uwchradd er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o ddisgyblaethau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau ac, felly, wrthdroi'r lleihad yn nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol sy'n mynd ymlaen i astudio graddau yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Yn fwy cyffredinol, mae'r mesurau presennol a ddefnyddir i bennu gwerth gradd i raddedigion yn rhoi darlun camarweiniol ar gyfer pynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, a hynny'n anfwriadol. Mae angen gwneud y pwynt hwnnw i wleidyddion a llunwyr polisïau. Fodd bynnag, mae angen i'r ddadl fod yn rhan o achos ehangach dros werth graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau i'r economi a chymdeithas yn gyffredinol. Ni fydd dadl offerynnol ar ei phen ei hun, ynghylch manteision ariannol astudio gradd yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau,

yn ddigon nes y bydd mesurau eraill, sy'n mynd i'r afael â chyfyngiadau'r data presennol a thrwy hynny'n adrodd stori wahanol, ar waith.

Er mwyn newid canfyddiadau'r cyhoedd, mae angen cyfleu neges gliriach a symlach am gyfraniad cymdeithasol ac economaidd pynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau. Beth yw'r stori y mae'n rhaid i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau ei hadrodd? Mae llawer i'w ddysgu gan bynciau STEMM, sydd wedi llwyddo i gyfleu stori gref mewn ffordd gydgysylltiedig, gan gynnwys drwy acronym tra adnabyddus, sefydliadau cyhoeddus a gweithgarwch hyrwyddo wedi'i anelu at lunwyr polisi. Yn yr un modd, bydd angen lledaenu stori'r Celfyddydau a'r Dyniaethau â llais cryf ac unedig. Bydd hyn yn gofyn am gydweithredu rhwng SAUau yng Nghymru a thu hwnt, ynghyd â chyrff ar gyfer y sector cyfan fel Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

history UK

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES